**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**6 RHAGFYR 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 6 Rhagfyr 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Sean Bibby, Veronica Gay, Dave Hughes, Billy Mullin, a Mike Peers

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Cindy Hinds a David Williams ar gyfer eitem 7 (056694)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

Cynghorodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod wedi derbyn hysbysiad fod y Cynghorydd David Williams a'r Cynghorydd Cindy Hinds yn dymuno siarad ar eitem 7 (056694) yn y rhaglen fel Aelodau Ward Leol gyfagos.

## 43. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 44. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4140&Ver=4&LLL=0

## 45. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**46. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) na argymhellodd y swyddogion i unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio.

.

**47. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad,

**48. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 16 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**49. 056694 - APÊL GAN Y STRATEGIC LAND GROUP AND GREEN GATES HOMES (NW) LTD YN ERBYN GWRTHOD RHOI CANIATÂD CYNLLUNIO AM 32 EIDDO AR DIR YN HAWARDEN ROAD (CYFEIRNOD CYNLLUNIO 056694)**

**PENDERFYNWYD:**

Yn dilyn cyngor gan Bargyfreithiwr y Cyngor, ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i herio'r apêl ond yn mynychu Ymchwiliad i egluro ei sefyllfa ac i gynorthwyo'r Ymchwiliad os bydd angen, gan gynnwys cymryd rhan yn y sesiwn amodau a goblygiadau o ran y datblygiad arfaethedig.

**50. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 6 aelod o'r cyhoedd a neb o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.43pm)

………………………….
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 6 RHAGFYR 2017**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057540 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn – Newidiadau i’r mathau o dai sydd eisoes wedi’u cymeradwyo i ganiatáu ar gyfer 73 annedd (cynnydd o 9 o’i gymharu â’r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol (cyfeirnod: 050300) yng Nghroes Atti, Chester Road, Oakenholt. | Siaradodd Mr. J. Yorke yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Ms. H. Wild, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057633 | Cyngor Cymuned Hôb | Diwygio cais sydd wedi ei gymeradwyo eisoes ar gyfer dau annedd, Cyf: 055414, er mwyn newid y mathau o dai yn Rhyddyn Farm, Ffordd Penarlâg, Yr Hob. | Siaradodd Mrs. V Mirze yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mrs. B. Shallish, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog ac amod ychwanegol yn ymwneud â gweledEDD 2.4m x 43m. Parcio a throi. |